// # YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 17
TACHWEDD 2008

Erbyn hyn, daeth diwedd ar gynnal y cyrddau diolchgarwch ac aeth y plant yn ôl i'r ysgol wedi gwyliau hanner tymor; gwnaeth y coed ddiosg eu dail lliwgar ac fe wnaethom ninnau droi'r clociau yn ôl. Yr ydym bellach ar drothwy tymor oer y gaeaf ac eisoes cawsom deimlo min gwyntoedd y dwyrain yn ein gorfodi i wisgo'n gynhesach a chynnau tân ar yr aelwyd. Ydi, mae'r gaeaf ar y ffordd! Yn sicr gyda dyfodiad mis Tachwedd fe'n hatgoffir o rythm bywyd ac o dreigl y tymhorau. Mae rhythm mewn bywyd yn bwysig. Yn gorfforol ceir rhythm neu guriad y galon s'yn dyngedfennol i sicrhau iechyd da. Rhaid i'r curiad hwn fod yn gyson, ddim yn rhy gyflym nac yn rhy araf. Rhaid wrth rythm o brydiau bwyd, rhythm o waith a gorffwys, rhythm o gysgu ac o fod ar ddihun. O gael rhythm a chydbwysedd yn ein bywydau fe'n cynorthwyir i fyw bywydau iach. A'r cyfan oll yn ein hatogffa o eiriau y pregethwr: "Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef," neu fel y dywed cyfieithiad William Morgan, "Y mae amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd". (Llyfr y Pregethwr 3:1).

Y mae angen rhythm hefyd ar ein bywydau ysbrydol. Rhan bwysig o'r rhythm hwn yw mynychu oedfa bob wythnos a chael ryw awr o fod yng nghwmni ein gilydd fel cyd-Cristnogion i atgyfnerthu ein ffydd a'n cred. Mae'n gyfle inni hefyd i blygu gerbron gorsedd gras a derbyn o drugaredd a chariad ein Harglwydd Iesu. Yn ystod yr awr hon cawn gyfle i gymryd stoc o'n bywydau, meddwl dros y pethau a ddigwyddodd yn ystod yr wythnos a aeth heibio ac ystyried heriadau yr wythnos sydd o'n blaenau.

Gallwn gyfoethogi'r profiad hwn drwy droi at Dduw yn feunyddiol mewn gweddi a chreu rhythm gweddi yn ein bywydau wrth neilltuo ychydig o amser bob dydd i hynny. Gwyddom bod yr Arglwydd wedi addo y bydd yn agos at bawb sydd yn galw arno. Meddai'r salmydd : "Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n galw arno, at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd". (Salm 145:18). Nid Duw pell amhersonol mo'n Duw ni ond un sydd yn agos atom ac ar waith yn ein byd ac yn ein bywydau. Y mae Duw yn estyn gwahoddiad inni i agosáu ato ac i dderbyn o'i gyflawnder, nid yn unig ar y Sul, ond yn feunyddiol. Does dim rhaid inni dreulio cyfnodau hir mewn gweddi, ond o neilltuo ryw ddeng munud neu chwarter awr bob dydd, nid yn unig y bydd rhythm ein bywydau ysbrydol yn gyfoethocach o lawer ond fe brofwn o gynnydd y wedd ysbrydol hon wrth inni dyfu ac aeddfedu yn ein hymwybyddiaeth o'n Harglwydd Dduw.

Felly wrth i dymor yr hydref droi yn dymor y gaeaf, diolchwn am rythm y tymhorau a bydded i rythmau ein bywydau ninnau, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol ddwyn clod a moliant i Dduw ein Gwaredwr.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS TACHWEDD 2008**

| **Cyhoeddwr y Mis** | **Mrs Mairwen Jones** | |
|---|---|---|
| 2 Tachwedd 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Gymun : Gweinidog | |
| 9 Tachwedd 10.00 | Oedfa Deuluol : Gweinidog<br>DS Bydd yr oedfa hanner awr yn gynharach. | |
| 16 Tachwedd 2.30 | Oedfa Arbennig i Ddiolch am Ofal Duw Trosom | Gofal y Te: Mrs Wendy Reynolds |
| 23 Tachwedd 10.30 | Oedfa Bregeth a Chlwb Sul: Parchedig Peter Thomas | |
| 30 Tachwedd 10.30 | Oedfa Bregeth | |
| 7 Rhagfyr 2.30 | Oedfa Gymun | |

**I'CH DYDDIADUR**

3 Tachwedd : Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys Dewi Sant
5 Tachwedd : Cymun Canol Dydd Bethel am 12.00
5 Tachwedd : Perfformiad o "Pobl y Ffordd", gan Nan Lewis yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin
6 Tachwedd : Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, Cwm Ifor am 10.30, 2.00 a 3.45.
6 Tachwedd : Os Mêts : Wal Ddringo.
12 Tachwedd : Cyfarfod Cymorth Cristnogol. Canolfan San Paul am 5.30yh
19 Tachwedd : Cymdeithas Bethel am 2.00. Edrychwn ymlaen at groesawu Mrs Mair Evans i sôn am ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans.
19 Tachwedd : Cymdeithas y Penrhyn: Festri Horeb am 7.30. Sgwrs gan yr awdur Lloyd Jones
20 Tachwedd : Os Mêts : Noson o Gemau yn Horeb
25 Tachwedd : Cwrdd Gweddi : Festri Horeb am 7.30
17 Rhagfyr : Cymdeithas Bethel : Taith o gwmpas y Llyfrgell Genedlaethol. Cinio am 12.30 yn y ffreutur. Angen cadarnhau y nifer sy'n dod rhyw wythnos o flaen llaw. Croeso i aelodau Horeb

**Rhaghysbyseb** : 5 Gorffennaf 2009 : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

**LLOFFION**

**Llongyfarchiadau i :**

- Eleri Edwards, merch Ann a Meirion Edwards ar ei dyweddïad â Sion Jones, Tal-y-bont.
- Shirley ar enedigaeth Sian, chwaer fach i Megan.

**Dymuniadau Gorau i:** Mrs Megan Evans sydd yn yr ysbyty a Mr Victor Bolt sydd wedi bod yn yr ysbyty. Brysiwch Wella.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys gyda Marion a'r teulu ar golli ei mam yn ddiweddar.

**Neges gan Cerys H** :Dymuna Cerys ddiolch i bawb a roddodd gefnogaeth iddi ar gyfer y daith gerdded i Batagonia. Er ei bod yn siomedig iawn nad oedd yn medru mynd ar y daith, mae Mencap wedi cytuno y caiff fynd ar daith arall y flwyddyn nesaf. Fe fydd yr arian (sydd yn ddiogel yn y coffrau) yn cael ei drosglwyddo i'r daith honno
Anfonwn ninnau ein dymuniadau gwresocaf i Cerys gan ddymuno gwellhad buan.

**Apêl am Wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r Cinio Cymunedol :** Y mae angen un neu ddau o wirfoddolwyr yn ychwanegol i gynorthwyo gyda'r clwb cinio cymunedol. Y mae Horeb yn cymryd ei thro unwaith bob dau fis i osod y byrddau, arlwyo'r bwyd a chlirio'r llestri ac y mae'n ymrwymiad o ryw ddwy awr a hanner. Mae pob un sy'n gwirfoddoli yn cael pryd o fwyd sylweddol am ddim.

**Gweinidog Anrhydeddus :** Hyfryd oedd cael croesawu y Parchedig Peter M. Thomas yn Weinidog Anrhydeddus Eglyws Horeb yn ein hoedfa Gymun ym mis Hydref. Bu'n weinidog ffyddlon a theyrngar am ymron i ugain mlynedd gan barhau i fod yn hael ei gymwynasau ers iddo gael ei benodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru.

**Byw yn Gynnil** : Y mae Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn bwriadu cyhoeddi cynghorion ar sut i fyw yn gynnil. A oes gennych unrhyw gynghorion arbennig sydd o gymorth i arbed arian? Os oes gennych unrhyw awgrym yr hoffech ei rannu, rhowch wybod i Judith.

**Cynllun yr Hedyn Mwstard** : Ers tro bellach y mae'r diaconiaid a'r gweinidog wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o weithredu Cynllun yr Hedyn Mwstard yn Horeb, sef cynllun i gynorthwyo eglwys yn ei gweinidogaeth a'i chyfeiriad. Mae'r broses yn un o geisio darganfod ewyllys Duw ar gyfer ein sefyllfa benodol a cheisio dirnad pa gamau y dylid eu cymryd i ymestyn allan mewn cenhadaeth. I'r perwyl hwn, fe ddaw y Parchedig Olaf Davies atom i Festri Bethel ar nos Wener 21 Tachwedd am 7 yr hwyr i sôn am ei brofiad ef o weithredu'r cynllun yn eglwys Penuel Bangor. Y mae croeso i bob aelod ddod i'r cyfarfod er mwyn cael darganfod mwy am botensial y cynllun hwn.

**Gair y Dydd** : Os hoffech danysgrifio ar gyfer 2009 cysylltwch â Ceris. Cost : £6 y set.